



Y llwybr at adferiad

Ein cynllun gweithredu ar gyfer llywodraeth nesaf Cymru

Pobl: mynd i'r afael ag argyfwng recriwtio'r GIG gyda chynllun gweithlu hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol

Mae'r gweithlu meddygol yn cael ei orymestyn a'i orddefnyddio. Dim ond 42.8% o feddygon a gofrestrwyd gyda'r GMC a hyfforddwyd yng Nghymru sy'n parhau i weithio yn GIG Cymru.

Mae 59% o feddygon ymgynghorol yn nodi bod swyddi ymgynghorwyr gwag yn eu hadran a bod 62% yn ymwybodol o fylchau yn rotâu hyfforddeion, naill ai'n ddyddiol neu'n wythnosol.

Mae arnom angen cynllun gweithlu hirdymor a chydgyssylltiedig sy'n ystyried recriwtio a chadw staff ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.

Atal: mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd gyda chynllun cyflawni trawslywodraethol er mwyn mynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldebau yng Nghymru

Mae anghydraddoldebau yng Nghymru yn dwysáu. Mae bron i draean o blant (29%) yng Nghymru yn byw mewn tldi. **Mae Coleg Brenhinol y Meddygon yn gweithio gyda 46 o elusennau eraill i alw am gynllun cyflawni trawslywodraethol i fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru.** Dylai'r cynllun nodi cerrig milltir, amserlenni a thargedau clir ar gyfer pob un o adrannau llywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau.

Cydraddoldeb: datblygu a gweithredu cynllun wedi'i gostio'n llawn ar gyfer gofal cymdeithasol

Mae gormod o gleifion yn cael eu trin mewn coridorau a chadeiriau mewn ysbytai yng Nghymru. Po fwyaf o gleifion sy'n methu gadael yr ysbyty er eu bod yn ddigon iach yn feddygol i wneud hynny, y lleiaf o welyau sydd ar gael i bobl sy'n dod i'r ysbyty'n ddifrifol wael.

Mae mynd i'r afael â'r argyfyngau yn ein gwasanaeth iechyd yn golygu mynd i'r afael â thanfuddsoddi mewn gofal cymdeithasol. **Rhaid i ofal cymdeithasol fod yn bartner cyfartal i'r GIG – mae hyn yn golygu cydraddoldeb o ran statws, cyllid a llywodraethu.**

Diogelu: gweithredu Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024 a bod yn genedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Llygredd aer yw'r risg amgylcheddol fwyaf i iechyd y cyhoedd ac mae'n cyfrannu at rhwng 1000 a 1400 o farwolaethau bob blwyddyn yng Nghymru.

Mae Deddf yr Amgylchedd 2024 yn cydnabod bod llygredd aer yn fater iechyd y cyhoedd, ac mae'n diogelu ein hawl i anadlu aer glân – nawr **mae'n rhaid ei weithredu er mwyn i ni fod yn gallu bodloni canllawiau Sefydliad Iechyd y Byd ar ansawdd aer.**

Datblygwyd y papur briffio hwn gan dîm polisi ac ymgyrchoedd yr RCP, mewn ymgynghoriad â chymrodyr ac aelodau, ac fe'i cymeradwywyd gan is-lywydd RCP Cymru ym mis Mawrth 2025.

Wales@RCP.ac.uk